Chwilio am Wybodaeth
Defnyddio Cymraeg yn . . .
Gwneud Cyflwyniad
Gwneud Cyflwyniad
Ateb Cwestiynau
Gwneud Fideo
Gwneud Fideo
Sgiliau Arholiad



# Chwilio am Wybodaeth

## Ffonio

*Mae ffonio yn sgil defnyddiol iawn. Felly, dyma gyfle i chi ymarfer. Bydd llais bach yn dweud wrthoch chi beth i'w ddweud.*

### Darn 1

| | |
|---|---|
| John Williams: | Bore da, John Williams yn siarad. |
| Chi: | *[Introduce yourself - your name and your school.]* |
| John Williams: | Helo, sut galla i helpu? |
| Chi: | *[Say why you're phoning.]* |
| John Williams: | Un funud, os gwelwch yn dda. |

## Darn 1 - enghraifft

John Williams: Bore da, John Williams yn siarad.

Chi: Rhian Roberts sy yma. Dw i'n fyfyriwr ym Mlwyddyn 12 yn yr ysgol uwchradd.

John Williams: Helo, sut galla i helpu?

Chi: Rydw i'n ffonio i ofyn am wybodaeth am y cwmni - er enghraifft, sut mae'r cwmni'n defnyddio'r Gymraeg.

John Williams: Un funud, os gwelwch yn dda.

## Darn 2

Rhian Jones: Brodyr Jones, prynhawn da.

Chi: *[Say 'Good afternoon' in Welsh and introduce yourself.]*

Rhian: Helo 'na.

Chi: *[Say that you're studying Welsh at school and that you're doing an assignment on using Welsh in the workplace.]*

Rhian: I-eeee.

Chi: *[Ask whether it's possible to visit the company in order to speak to someone.]*

Rhian: Pryd?

Chi: *[Suggest a date and time.]*

Rhian: Rhaid i fi ofyn i'r rheolwr. Yna, mi wna i eich ffonio chi yn ôl. Beth ydy'ch rhif ffôn chi?

Chi: *[Give the school's phone number and e-mail address.]*

Rhian: Diolch i chi.

Chi: *[Say thank you].*

Chwilio am Wybodaeth
Defnyddio Cymraeg yn . . .
Gwneud Cyflwyniad
Gwneud Cyflwyniad
Ateb Cwestiynau
Gwneud Fideo
Gwneud Fideo
Sgiliau Arholiad



## Darn 2 - enghraifft

Rhian Jones: Brodyr Jones, prynhawn da.

Chi: Prynhawn da, John Jones sy yma, o'r ysgol uwchradd.

Rhian: Helo 'na.

Chi: Rydw i'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol ac rydyn ni'n gwneud aseiniad ar ddefnyddio Cymraeg yn y gweithle.

Rhian: I-eeee.

Chi: Ga i ddod i'r cwmni i siarad â rhywun am ddefnyddio Cymraeg yn y gweithle os gwelwch yn dda?

Rhian: Pryd?

Chi: Dydd Mawrth nesaf, Mai 11 - yn y bore?

Rhian: Rhaid i fi ofyn i'r rheolwr. Yna, mi wna i eich ffonio chi yn ôl. Beth ydy'ch rhif ffôn chi?

Chi: 01876 555 473. Mae gennyn ni gyfeiriad e-bost hefyd - maesyrallt@ceredigion.gov.uk

Rhian: Diolch i chi.

Chi: Diolch.

## Darn 3

Mrs Smith: Prynhawn da, cwmni Smith ac Evans. Janet Smith yn siarad.

Chi: *[Say 'Good afternoon'. Introduce yourself - name and school.]*

Mrs Smith: Sut galla i eich helpu chi?

Chi: *[Say that you want some information about the company - and how the company uses Welsh.]*

Mrs Smith: I-a-w-n. Beth rydych chi eisiau gwybod?

Chi: *[Ask whether they have a language policy.]*

Mrs Smith: Oes, mae gennyn ni bolisi iaith. Ydych chi eisiau copi?

Chi: *[Say please and ask whether it's possible to visit the company - in order to speak to someone about the language policy.]*

Mrs Smith: Pryd rydych chi eisiau dod?

Chi: *[Suggest a date and time.]*

Mrs Smith: Popeth yn iawn.

## Darn 3 - enghraifft

Mrs Smith: Prynhawn da, cwmni Smith ac Evans. Janet Smith yn siarad.

Chi: Prynhawn da. Janet Jones sy yma. Dw i'n ffonio o'r ysgol uwchradd, ble rydw i'n fyfyriwr.

Mrs Smith: Sut galla i eich helpu chi?

Chi: Rydw i eisiau gwybodaeth am y cwmni os gwelwch yn dda, er enghraifft, sut mae'r cwmni'n defnyddio'r Gymraeg.

Mrs Smith: I-a-w-n. Beth rydych chi eisiau gwybod?

Chi: Oes gennych chi bolisi iaith?

Mrs Smith: Oes, mae gennyn ni bolisi iaith. Ydych chi eisiau copi?

Chi: Os gwelwch yn dda. Hefyd, ydy hi'n bosibl i fi ddod i'r cwmni - i siarad â rhywun am y polisi iaith?

Mrs Smith: Pryd rydych chi eisiau dod?

Chi: Yr wythnos nesaf - prynhawn dydd Mercher tua 2 o'r gloch.

Mrs Smith: Popeth yn iawn.

## Darn 4

Ken: Cwmni Cludiant Da, Ken sy'n siarad.

Chi: *[Dwedwch 'Bore da' a chyflwynwch eich hun.]*

Ken: Beth galla i ei wneud i chi?

Chi: *[Dwedwch eich bod chi'n dysgu Cymraeg a'ch bod chi'n gwneud fideo.]*

Ken: I-e-eee?

Chi: *[Gofynnwch ydy hi'n bosibl i chi fynd i weld y gwaith.]*

Ken: Pam?

Chi: *[Dwedwch hoffech chi ddangos y gwaith ar y fideo.]*

Ken: Well i chi siarad â Mr Jones, y rheolwr, rydw i'n meddwl. Mi wna i ofyn iddo fo eich ffonio chi. Beth ydy'ch rhif ffôn chi?

Chi: *[Rhowch rif ffôn yr ysgol. Gofynnwch ydy o eisiau cyfeiriad e-bost yr ysgol.]*

Ken: Diolch.

Chi: *[Rhowch y cyfeiriad e-bost.]*

Ken: Unwaith eto, os gwelwch yn dda.

Chi: *[Rhowch y cyfeiriad e-bost eto.]*

Ken: Diolch.

Chi: *[Dwedwch 'Croeso'.]*

## Darn 4 - enghraifft

Ken: Cwmni Cludiant Da, Ken sy'n siarad.

Chi: Bore da. Rhys Jones sy yma. Rydw i'n fyfyriwr ym Mlwyddyn 12 yn yr ysgol uwchradd.

Ken: Beth galla i ei wneud i chi?

Chi: Rydw i'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol ac rydyn ni'n mynd i wneud fideo.

Ken: I-e-eee?

Chi: Ydy hi'n bosibl i fi ddod i weld eich gwaith chi os gwelwch yn dda?

Ken: Pam?

Chi: Hoffwn i ddangos y gwaith ar y fideo.

Ken: Well i chi siarad â Mr Jones, y rheolwr, rydw i'n meddwl. Mi wna i ofyn iddo fo eich ffonio chi. Beth ydy'ch rhif ffôn chi?

Chi: 01876 555 473. Ydych chi eisiau cyfeiriad e-bost yr ysgol hefyd?

Ken: Diolch.

Chi: maesyrallt@ceredigion.gov.uk

Ken: Unwaith eto, os gwelwch yn dda.

Chi: maesyrallt@ceredigion.gov.uk

Ken: Diolch.

Chi: Croeso.

## Darn 5

Derbynnydd: Prynhawn da, Yr Adran Datblygu Economaidd.

Chi: *[Gofynnwch ydy hi'n bosibl i chi siarad â'r Swyddog Datblygu Economaidd.]*

Derbynnydd: Iawn, pwy sy'n siarad?

Chi: *[Cyflwynwch eich hun.]*

Derbynnydd: Un funud os gwelwch yn dda...(saib)

Swyddog: Martin Morgan yn siarad.

Chi: *[Dwedwch 'Prynhawn da' a gofynnwch am help.]*

Swyddog: Sut galla i helpu?

Chi: *[Dwedwch eich bod chi'n dysgu Cymraeg a'ch bod chi'n gwneud fideo am yr ardal.]*

Swyddog: Fideo am beth sy'n digwydd yn yr ardal?

Chi: *[Dwedwch 'Nage'. Dwedwch beth ydy pwrpas y fideo.]*

Swyddog: O, rydw i'n gweld. Beth rydych chi eisiau gen i, felly?

Chi: *[Gofynnwch iddo ddod i siarad â'r grŵp Cymraeg yn yr ysgol.]*

Swyddog: Pryd?

Chi: *[Awgrymwch ddyddiad ac amser.]*

Swyddog: Ydy, mae hynny'n iawn.

Chi: *[Dwedwch 'Gwych'. Gofynnwch iddo ydy hi'n bosibl i chi wneud fideo o'r sesiwn.]*

Swyddog: O, dw i ddim yn siŵr.

Chi: *[Dwedwch bod rhaid i chi ofyn cwestiynau i rywun ar fideo.]*

Swyddog: Am beth fydd y cwestiynau?

Chi: *[Dwedwch pa fath o gwestiynau byddwch chi'n gofyn.]*

Swyddog: O, iawn. Dw i'n meddwl bydd hynny'n iawn.

Chi: *[Dwedwch 'Diolch yn fawr'.]*

Swyddog: Popeth yn iawn. Wela i chi cyn bo hir felly.

Chi: *[Dwedwch 'Iawn. Prynhawn da'.]*

## Darn 5 - enghraifft

| | |
|---|---|
| Derbynnydd: | Prynhawn da, yr Adran Datblygu Economaidd. |
| Chi: | Ga i siarad â'r Swyddog Datblygu Economaidd os gwelwch yn dda? |
| Derbynnydd: | Iawn, pwy sy'n siarad? |
| Chi: | Wyn Rogers. Rydw i'n fyfyriwr yn yr ysgol uwchradd ac rydw i'n gwneud aseiniad ar ddenu busnes i'r ardal |
| Derbynnydd: | Un funud os gwelwch yn dda. . . (saib) |
| Swyddog: | Martin Morgan yn siarad. |
| Chi: | Prynhawn da. Tybed ydych chi'n gallu helpu os gwelwch yn dda? |
| Swyddog: | Sut galla i helpu? |
| Chi: | Rydw i'n dysgu Cymraeg ac rydw i'n gwneud fideo am yr ardal. |
| Swyddog: | Fideo am beth sy'n digwydd yn yr ardal? |
| Chi: | Nage. Rydw i'n gwneud fideo i geisio denu busnes i'r ardal. |
| Swyddog: | O, rydw i'n gweld. Beth rydych chi eisiau gen i, felly? |
| Chi: | Ydych chi'n fodlon dod i siarad â'r grŵp Cymraeg yn yr ysgol, os gwelwch yn dda? |

Tudalen cartref
Prif dudalen
◀◀ ▶▶
◀ ▶
Tudalen 12 o 33
Yn ôl
Sgrin gyfan
Cau
Gadael

Swyddog: Pryd?

Chi: Yr wythnos nesaf - 10 Mai - am ddeg o'r gloch y bore?

Swyddog: Ydy, mae hynny'n iawn.

Chi: Gwych. Ydy hi'n bosibl i ni wneud fideo o'r sesiwn os gwelwch yn dda?

Swyddog: O, dydw i ddim yn siŵr.

Chi: Rhaid i fi ofyn cwestiynau i rywun ar fideo.

Swyddog: Am beth fydd y cwestiynau?

Chi: Bydda i'n gofyn am yr ardal, pa fath o fusnesau sy yma, pa fath o help rydych chi'n roi i fusnesau.

Swyddog: O, iawn. Dw i'n meddwl bydd hynny'n iawn.

Chi: Diolch yn fawr.

Swyddog: Popeth yn iawn. Wela i chi cyn bo hir felly.

Chi: Iawn. Prynhawn da.

# Defnyddio Cymraeg yn y Gweithle

## Ateb y ffôn

*Dyma sut mae rhai pobl ym myd gwaith yn ateb y ffôn.*

### Darn 1

Thank you for calling the Williams-Clarkson Brothers Customer Helpline. If you would like to speak to a Welsh speaker, press 1 now. If you would like information about our services, press 2. If you would like to speak to an operator, please hold.

*[Llais yn dweud ]* “Reit ‘te - pwyso un.”

I’m sorry, our Welsh speaking operators are not available at present, but if you would like to hold, we shall connect you to an English speaking operator.

### Darn 2

Bore da, Canolfan Wyliau’r Hendre, Siân sy’n siarad. Sut galla i helpu? Good morning, Hendre Holiday Centre. Siân speaking. How can I help?

### Darn 3

Bore da. Good morning, Smithsons Ltd. William speaking. How may I help?

## Darn 4

Llais ar y ffôn: Prynhawn da, Llyfrgell Aberarth. Good afternoon, Aberarth Library.

Cwsmer: Prynhawn da. Dw i eisiau archebu llyfr ar yr iaith Gymraeg os gwelwch yn dda —**Cymraeg Da** gan Heini Gruffudd.

Llais ar y ffôn: Mae'n ddrwg gen. Dw i'n dysgu siarad Cymraeg. Allwch chi ddweud hynna eto — yn araf — os gwelwch yn dda?

Cwsmer: Wrth gwrs.

Chwilio am Wybodaeth
Defnyddio Cymraeg yn . . .
Gwneud Cyflwyniad
Gwneud Cyflwyniad
Ateb Cwestiynau
Gwneud Fideo
Gwneud Fideo
Sgiliau Arholiad



# Gwneud Cyflwyniad

## Cyflwyniad gwael

*Mae Catrin Hughes wedi bod yn gwneud ymchwil yn y gwaith i weld faint o'r staff sy'n gallu siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Yna, mae hi'n mynd i roi cyflwyniad i reolwyr y cwmni.*

*Yma, mae hi'n ymarfer y cyflwyniad.*

Catrin: Wel, mae gennyn ni bolisi iaith. Mae'r polisi yma'n dweud bod y cwmni i fod i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'n cwsmeriaid. Felly, rhaid i ni gael digon o staff sy'n dda yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Oes gennyn ni ddigon o staff sy'n dda yn Gymraeg ac yn Saesneg? Wel, rydw i wedi rhoi holiadur i bob aelod staff. (o dan ei hanadl) Ble mae'r holiadur? (sŵn papur wrth iddi chwilio am yr holiadur). Dyma ni ... yr holiadur yma. Mae copi yn eich pecyn chi. Edrychwch ar yr holiadur ar ôl y sesiwn yma os gwelwch yn dda.
Mae'r atebion i'r holiaduron yn dangos bod rhai o'r staff yn gallu siarad Cymraeg, mae rhai'n gallu darllen Cymraeg ac mae rhai eisiau dysgu Cymraeg. Felly, rhaid i'r cwmni drefnu dosbarthiadau iddyn nhw.
Diolch yn fawr am wrando.
Hwyl fawr.

Chwilio am Wybodaeth
Defnyddio Cymraeg yn . . .
Gwneud Cyflwyniad
Gwneud Cyflwyniad
Ateb Cwestiynau
Gwneud Fideo
Gwneud Fideo
Sgiliau Arholiad



# Gwneud Cyflwyniad

## Cyflwyniad da

*Mae Catrin Hughes wedi bod yn gwneud ymchwil arbennig yn y gwaith i weld faint o'r staff sy'n gallu siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.*

*Yna, mae hi'n rhoi cyflwyniad i reolwyr y cwmni.*

Catrin: Y prynhawn yma, rydw i'n mynd i siarad â chi am fy ymchwil i weld faint o'r staff sy'n gallu *[Defnyddio tryloywder 1 i egluro'r pwyntiau yma.]*

- deall Cymraeg
- siarad Cymraeg
- darllen Cymraeg
- ysgrifennu Cymraeg.

Fel rydych chi'n gwybod, mae gennyn ni bolisi iaith. Mae'r polisi yma'n dweud bod y cwmni i fod i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'n cwsmeriaid ni. Felly, rhaid i ni gael digon o staff sy'n dda yn Gymraeg ac yn Saesneg. Er mwyn gweld faint o bobl sy'n gallu deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, mae pob aelod o staff wedi cael un o'r holiaduron yma.
*[Dangos / defnyddio Tryloywder 2 i egluro'r pwyntiau nesaf.]*
Mae copi o'r holiadur yma ar Daflen 1 yn eich pecynnau chi.

Fel rydych chi'n gweld, mae'r 4 rhes ar y top yn gofyn am wybodaeth fel

- enw
- swydd
- adran a
- dyddiad llenwi'r holiadur.

Yna, mae'r holiadur yn mynd ymlaen i ofyn:

- ydy'r person yn gallu deall Cymraeg
- ydy'r person yn gallu siarad Cymraeg
- ydy'r person yn gallu darllen Cymraeg ac
- ydy'r person yn gallu ysgrifennu Cymraeg.

Mae'r bocsys ar y gwaelod yn gofyn:

- ydy'r person yn mynd i ddosbarth Cymraeg i loywi neu i wella ei Gymraeg
- ydy'r person eisiau mynd i ddosbarth Cymraeg i loywi neu i wella ei Gymraeg
- ydy'r person yn dysgu Cymraeg
- ydy'r person eisiau dysgu Cymraeg neu
- dydy'r person ddim eisiau dysgu Cymraeg ac mae bocs yma hefyd yn gofyn
- ydy'r person eisiau hyfforddiant arall.

Felly, mae'r holiadur yn gofyn am lawer o wybodaeth er mwyn i ni gael gweld yn glir beth ydy'r sefyllfa.
Rydyn ni wedi prosesu'r holiaduron yma ac mae'r canlyniadau ar ffurf graff ar Daflen 2 yn eich pecynnau chi.
*[Defnyddio graff 1 - Tryloywder 3.]*
Fel rydych chi'n gweld, o'r 85 aelod o staff, mae 35 yn deall y Gymraeg — neu'n medru'r Gymraeg. Dydy 50 ddim yn medru'r Gymraeg o gwbl — mae hyn dros hanner y staff.
*[Defnyddio graff 2 - Tryloywder 3.]*
O'r 35 sy'n deall y Gymraeg, mae 25 yn siarad yn eithaf da neu'n rhugl. Mae 15 yn darllen Cymraeg yn eithaf da ac mae 10 yn ysgrifennu Cymraeg yn eithaf da.
Ond os ydyn ni'n edrych ar yr ystadegau ar gyfer faint o'r staff sy eisiau gwella'u Cymraeg, rydyn ni'n cael neges bositif iawn. Mae'r graff olaf ar Daflen 2 yn dangos:
*[Defnyddio graff 3 - Tryloywder 3.]*

- does neb yn mynd i ddosbarthiadau Gloywi Iaith ar hyn o bryd, ond
- hoffai 10 aelod o staff gael gwersi i loywi eu Cymraeg
- mae 8 o bobl yn dysgu Cymraeg
- mae 18 aelod o staff yn barod i ddysgu'r iaith.

Mae'r ffaith fod 36 o'n staff yn barod i wella neu i ddysgu Cymraeg yn bositif iawn - bydd hyn yn help mawr i ni gadw at ein polisi iaith ac i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'n cwsmeriaid. Efallai y dylai'r cwmni geisio helpu'r bobl yma - achos wrth ddysgu a gwella eu Cymraeg, byddan nhw'n helpu'r cwmni. Ond mater i reolwyr y cwmni ydy hwnna.
Oes gan unrhyw un gwestiynau?

Chwilio am Wybodaeth
Defnyddio Cymraeg yn . . .
Gwneud Cyflwyniad
Gwneud Cyflwyniad
Ateb Cwestiynau
Gwneud Fideo
Gwneud Fideo
Sgiliau Arholiad



# Ateb Cwestiynau

*Ar ddiwedd y cyflwyniad, bydd rhaid i chi ateb cwestiynau gan y gynulleidfa. Felly, beth am ymarfer?*

*Atebwch y cwestiynau yma.*

1. Oedd hi'n anodd cael digon o wybodaeth i wneud y cyflwyniad?
2. O ble cawsoch chi eich gwybodaeth?
3. Gawsoch chi lawer o help gan bobl?
4. Aethoch chi i ymweld â chwmnïau neu sefydliadau?
5. Ydy pobl yn y gweithle eisiau defnyddio Saesneg a Chymraeg?
6. Beth ydy barn y cwsmeriaid?
7. Beth ydy pwynt defnyddio Saesneg a Chymraeg yn y gwaith?
8. Ydy busnesau neu sefydliadau'n gwneud yn well os ydyn nhw'n defnyddio dwy iaith, ydych chi'n meddwl?
9. Fwynheuoch chi wneud y gwaith?
10. Beth rydych chi wedi ei ddysgu o'r profiad?

Chwilio am Wybodaeth
Defnyddio Cymraeg yn . . .
Gwneud Cyflwyniad
Gwneud Cyflwyniad
Ateb Cwestiynau
Gwneud Fideo
Gwneud Fideo
Sgiliau Arholiad



# Gwneud Fideo

## Sgwrs am yr ardal

*Mae Mrs Williams, yr athrawes Gymraeg, Jane, Huw a Catherine yn cyfarfod i drafod gwneud fideo.*

*Maen nhw'n mynd i wneud fideo am yr ardal.*

*Pwrpas y fideo ydy denu busnes i'r ardal.*

*(y sain yn codi)*

Mrs Williams: Beth am ddechrau drwy siarad am y pwynt cyntaf - lleoliad yr ardal - neu ble mae'r ardal. Catherine, wyt ti wedi paratoi rhywbeth ar y pwynt yma?

Catherine: Ydw!

Mrs Williams: Grêt. Darllena beth rwyt ti wedi ei baratoi.

Catherine: Mae Rhuthun yn Sir Ddinbych, tua 20 milltir o'r Rhyl, tua 20 milltir o Wrecsam. Mae hi'n dref fach hyfryd wrth ymyl y mynyddoedd.

Mrs Williams: Iawn. Ond, cofia rhaid i ni geisio dangos bod Rhuthun yn lle da ar gyfer byd busnes. Felly, beth am sôn am y ffyrdd.

Huw: Ond does dim ffyrdd mawr iawn yma!

Mrs Williams: Nac oes, ond rydyn ni'n agos i Wrecsam, ac mae'r ffyrdd yn dda iawn yn ardal Wrecsam. Mae'n bosibl teithio i unrhyw le ym Mhrydain yn eitha cyflym o Wrecsam. Hefyd, dydyn ni ddim yn bell o'r A55 - mae'n bosibl mynd i borth-ladd Caergybi ac i faes awyr Manceinion yn eitha cyflym. Mae'n bosibl symud pethau o'r ardal yn eitha hawdd, felly.

Catherine: O ie.

Mrs Williams: Felly, trïa eto, Catherine.

Catherine: Mae Rhuthun yn Sir Ddinbych, tua 20 milltir o'r Rhyl, tua 20 milltir o Wrecsam. Mae'r dref yn agos i system ffyrdd dda iawn. Mae'r A55 yn mynd o Gaer i borthladd Caergybi ac mae system ffyrdd arbennig o dda wrth ymyl Wrecsam. Dydy maes awyr Manceinion ddim yn bell. Mae hyn yn bwysig os ydych chi eisiau symud pethau o gwmpas Prydain - neu dros y môr.

Mrs Williams: Llawer yn well, Catherine. Ydych chi eisiau dweud rhywbeth arall?

Pawb: Na.

Mrs Williams: Reit, Jane, wyt ti wedi meddwl am y pwynt nesaf? Parciau busnes ac ati.

Jane: Ydw.

Mrs Williams: Da iawn. Darllena beth rwyt ti wedi ei baratoi.

Jane: Mae parc busnes da iawn yn Rhuthun. Lôn Parcwr ydy enw'r parc busnes ac mae unedau yma ar gyfer pob math o fusnesau. Ar hyn o bryd mae cwmni adeiladu, canolfan arddio, cwmni gwneud bwyd, cwmni cyfrifiaduron, cwmni ceginau a chwmni dodrefn yma. Mae rhai o'r unedau yn wag, felly mae digon o le ar gyfer busnesau newydd.

Mrs Williams: Gwych!

Huw: Ydy hi'n bosib i ni fynd i wneud fideo yn y parc busnes?

Jane: Ydy - a dw i'n nabod rhywun sy'n gweithio yn y cwmni bwyd, felly byddwn ni'n gallu mynd i ffilmio tu mewn i un o'r unedau hefyd.

Catherine: Ydy hi'n bosib i ni siarad gyda'r person yma - ar y fideo?

Jane: Wel dydy hi ddim yn siarad Cymraeg, ond beth am i ni ffilmio'r uned a disgrifio beth rydyn ni'n ei weld. Gallwn ni fynd i weld y lle yn gyntaf, penderfynu beth rydyn ni'n mynd i ffilmio, ysgrifennu'r sgript ac wedyn ffilmio.

Mrs Williams: Syniad da. Reit, Huw - ti oedd yn paratoi rhywbeth am y pwynt nesaf - pa fath o help sy ar gael.

Huw: Ie. Dw i wedi bod yn siarad gyda Mr Ellis yn y Cyngor ac mae e'n dweud bod llawer o help i fusnesau newydd yn yr ardal. Mae'r Cyngor yn rhoi help - mae ganddyn nhw becyn gwybodaeth am yr ardal. Hefyd, mae grantiau ar gael ar gyfer rhai mathau o fusnesau.

Mrs Williams: Iawn.

Huw: Ond newyddion da, mae Mr Ellis yn barod i ddod i'r ysgol i roi help i ni gyda'r gwaith yma. Mae e'n hapus i ddod i siarad â ni am ddenu busnes i'r ardal.

Jane: Ydyn ni'n gallu ei ffilmio fe?

Huw: Dw i ddim yn gwybod. Rhaid i ni ofyn iddo fe.

Mrs Williams: Wel, da iawn. Rhaid i ni drefnu dyddiad gyda fe. Reit y pwynt nesaf - cyfleusterau ar gyfer pobl. Cofiwch - mae'r fideo'n ceisio denu busnes i'r ardal. Felly, meddyliwch am bethau fel tai. Efallai bydd pobl newydd yn symud i mewn i'r dref i weithio yn y busnes newydd - oes digon o dai yma? Beth am siopau . . . ysgolion . . . beth mae'r bobl yn gallu ei wneud ar ôl gweithio?

Huw: Mae llawer o dai yma.

Mrs Williams: Oes - pa fath o dai?

Huw: Pob math - tai eitha bach, tai mawr.

Mrs Williams: Oes digon o dai?

Catherine: Oes.

Mrs Williams: Siopau?

Jane: Does dim siopau mawr iawn yma.

Mrs Williams: Paid â bod yn negyddol, Jane.

Jane: Mae siopau bach hyfryd yma ac mae siopau mawr Wrecsam, Caer a Manceinion yn eitha agos.

Mrs Williams: Perffaith. Ysgolion?

Huw: Mae ysgolion cynradd ac uwchradd yma. Mae ysgolion Cymraeg a Saesneg yma.

Mrs Williams: Pethau i'w gwneud ar ôl y gwaith?

Huw: Mae theatr yn Yr Wyddgrug tua 13 milltir i ffwrdd.

Jane: Mae llawer o bethau'n digwydd yn y Ganolfan Hamdden.

Catherine: Mae cwrs golff arbennig o dda yn yr ardal.

Jane: Ac mae glan y môr yn eitha agos.

Mrs Williams: Ydy - ac mae digon o bethau i'w gwneud yn Llandudno a'r Rhyl. Reit, mae gennyn ni syniadau da iawn yma. Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud nesaf?

Jane: Beth am geisio meddwl sut rydyn ni'n mynd i ddangos hyn i gyd ar y fideo?

Mrs Williams: Syniad da. Rhaid i ni benderfynu sut rydyn ni'n mynd i ddangos y pethau yma . . . ble rydych chi'n siarad â'r camera . . . ble rydych chi'n siarad â rhywun arall ar y fideo . . . pwy arall sy'n mynd i fod ar y fideo ac ati ac ati. . . *[fade out]*

Chwilio am Wybodaeth
Defnyddio Cymraeg yn . . .
Gwneud Cyflwyniad
Gwneud Cyflwyniad
Ateb Cwestiynau
Gwneud Fideo
Gwneud Fideo
Sgiliau Arholiad



# Gwneud Fideo

## Fideo am yr ardal

### Ffilmio'r ardal

Sam: Abermawr . . . (dangos) . . . ardal hardd . . . (dangos) . . . lle mae gwlad hyfryd - mynyddoedd . . . (dangos) . . . afonydd . . . (dangos) . . . ffermydd . . . (dangos ). . . trefi bach prysur . . . (dangos) . . . Ardal wych ar gyfer cerdded yn y mynyddoedd . . . (dangos) . . . ymweld â lleoedd diddorol . . . (dangos) . . . gwneud chwaraeon . . . (dangos) . . . mwynhau . . . (dangos ). . .
Mae'r diwydiant twristiaeth yn bwysig iawn yma, felly - achos bod y lle mor hyfryd ac achos bod llawer o bethau i'w gwneud. Mae llawer o westai da yma . . . (dangos) . . . llawer o leoedd bwyta gwych . . . (dangos) . . . a llawer o siopau bach diddorol . . . (dangos) . . .
. . . ac mae Canolfan Grefftau yma lle mae crefftwyr yn gweithio ac yn gwerthu eu lluniau, eu gemau . . . (dangos) . . .
Mae'n ardal wych ar gyfer gwaith. Yn wir, mae llawer o wahanol fathau o waith yma, er enghraifft . . .

- cwmni cludo (dangos y depo) - mae lorïau Williams Ltd yn cario pob math o nwyddau ar draws Cymru, Lloegr, Iwerddon a chyfandir Ewrop
- cwmnïau adeiladu (dangos swyddfeydd / gwaith) - maen nhw'n cyflogi llawer o bobl yr ardal
- cwmni gwneud pethau papur

## Siarad â'r camera

Sam: Pam mae'r ardal yma'n wych ar gyfer gwaith?
Yn gyntaf, mae'n eithaf hawdd cyrraedd . . . a gadael yr ardal. Felly os ydych chi eisiau gwahodd pobl i'ch gwaith chi - neu os ydych chi eisiau symud nwyddau o'r gwaith i ardaloedd eraill, does dim problem - mae ffyrdd da yn agos, a dydy'r rheilffordd a'r porthladd fferi ddim yn rhy bell chwaith.
Mae hyn yn bwysig iawn i bobl fel Mr William Jones. Mae cwmni cludo gyda fe ac mae ei lorïau fe yn cario nwyddau ar draws Cymru, Lloegr, Iwerddon a chyfandir Ewrop.

## Siarad â Mr Jones

Sam: Bore da Mr Jones.
Mr J.: Bore da i chi.
Sam: Rydych chi'n dod o'r ardal yma, on'd ydych chi.
Mr J.: Ydw. Es i i'r ysgol yma a dw i wedi byw yma erioed.
Sam: Pam dechreuoch chi'r busnes cario nwyddau?
Mr J.: Roeddwn i'n gweld bod eisiau lorïau i gario anifeiliaid i'r farchnad a bod angen lorïau i gario nwyddau'r cwmni papur i ardaloedd eraill yn Lloegr, Iwerddon ac yn Ewrop.
Sam: Rydych chi'n brysur iawn, felly.
Mr J.: Ydyn, ond rydyn ni'n lwcus iawn achos rydyn ni'n agos iawn i ffyrdd arbennig o dda, felly rydyn ni'n gallu mynd i rywle yn hawdd!
Sam: Sut wnaethoch chi ddechrau'r busnes?
Mr J.: Es i weld swyddog yn yr Adran Datblygu Economaidd ac fe roiodd e lawer o help i fi.

Sam: Pa fath o help?

Mr J.: Cyngor . . . gwybodaeth am ble i gael grantiau a help . . . pecyn gwybodaeth am yr ardal.

Sam: Felly, roedd y cyngor yn gallu rhoi llawer o help.

Mr J.: Oedd, yn wir.

**Siarad â'r camera - yn y parc busnes**

Sam: Felly, mae'r cyngor lleol yn rhoi help i fusnesau yn yr ardal. Ond beth arall sy yn Abermawr i rywun sy eisiau dechrau busnes neu sy eisiau symud busnes yma?
Y tu ôl i mi mae Parc Busnes Lôn y Caeau. Mae wyth deg o unedau yma ac maen nhw'n addas iawn ar gyfer busnesau bach - neu fusnesau mawr. Dewch i edrych o gwmpas.

**Siarad â'r camera - yn Uned 45A**

Sam: Mae Mrs Rhian Smith yn rhentu Uned 45A. Mae ganddi hi gwmni sy'n gwneud bwyd cartref - caserôls, lasagnes, patés ac ati - i'w rhewi. Yn ei huned hi, mae derbynfa olau . . . (dangos) . . . i groesawu cleientiaid . . . swyddfa . . . (dangos) . . . lle mae Mrs Smith a'r ysgrifenyddes yn gweithio, a thair ystafell fawr, lân, olau, lle maen nhw'n gwneud y bwyd.

## Siarad â Mrs Smith

Sam: . . . a dyma Mrs Smith, yn siarad gydag un o'i gweithwyr. Bore da, Mrs Smith, diolch i chi am adael i ni ffilmio yn yr uned.

Mrs S: Croeso.

Sam: Beth ydy'ch barn chi am yr unedau yma?

Mrs S: Maen nhw'n dda iawn. Maen nhw'n fodern iawn, maen nhw'n lân iawn. Mae hyn yn bwysig iawn achos rydyn ni'n gwneud bwyd.

Sam: Oes digon o le yma?

Mrs S: Oes - ond os bydd y cwmni'n datblygu, byddwn ni'n symud i uned arall.

Sam: Mae unedau mwy yma.

Mrs S: Oes, mae gwahanol fathau o unedau yma.

*[trosleisio - yn y parc busnes]*

Sam: Oes, mae gwahanol fathau o unedau yma. Mae'r uned yma'n bwysig iawn . . . (ei dangos) . . . Dyma'r feithrinfa - dyma ble mae rhieni sy'n gweithio yn gadael eu plant bach drwy'r dydd. Dewch i mewn i weld beth sy'n digwydd ac i gael sgwrs gyda'r perchennog.
*[sŵn plant yn mwynhau]*

## Siarad â'r camera - yn y feithrinfa

Sam: Fel rydych chi'n gallu gweld, mae'r feithrinfa yn lliwgar iawn ac mae'r plant yn mwynhau chwarae gyda'i gilydd.

## Siarad â Nerys - yn y feithrinfa

Sam: Chi sy'n rhedeg y feithrinfa yma?

Nerys: Ie.

Sam: Pa fath o blant sy'n dod yma?

Nerys: Wel, mae plant o chwe mis oed hyd at dair oed yn dod yma.

Sam: Ydyn nhw'n dod am ddiwrnod, neu ydyn nhw'n dod am rai oriau yn unig.

Nerys: Mae rhai plant yn dod yma am chwarter i wyth y bore. Mae eu rhieni nhw'n eu gadael nhw yma ar y ffordd i'r gwaith. Mae rhai plant yn dod am fore yn unig neu am brynhawn yn unig. Mae'n dibynnu ydy eu rhieni nhw'n gweithio'n rhan-amser neu'n llawn-amser.

Sam: Dw i'n gweld . . . a faint o'r gloch rydych chi'n cau yn y nos?

Nerys: Rydyn ni'n cau am chwech o'r gloch - ond mae llawer o'r plant yn gadael cyn chwech o'r gloch.

Sam: Oes llawer o staff gyda chi?

Nerys: Mae un deg wyth o staff yma. Rydyn ni'n gweithio shifftiau. Dydyn ni ddim i gyd yma drwy'r amser. Hefyd, mae rhai o'r staff yn mynd i'r ysgolion lleol am chwarter i naw y bore - maen nhw'n mynd â rhai plant i'r ysgol ac maen nhw'n mynd i'w casglu nhw tua chwarter wedi tri.

Sam: Mae gwasanaeth da iawn yma felly.

## Siarad ag un o'r rhieni

Sam: A beth ydy barn rhai o'r rhieni tybed?

Sam: Beth ydy'ch enw chi?
John: John Pryce.
Sam: Ydych chi'n byw yn Abermawr?
John: Ydw - ond dw i'n dod o Ogledd Cymru yn wreiddiol.
Sam: Pam daethoch chi i Abermawr, felly?
John: Rydw i'n gallu gweithio yn unrhyw le achos rydw i'n gwneud safweoedd, ond mae Abermawr yn lle gwych i fyw. Mae'n hardd, mae'n lân, ac mae ysgolion da iawn yma i'r plant. Hefyd, mae fy ngwraig i'n artist, felly, roedd Abermawr yn lle gwych iddi hi weithio.
Sam: A beth ydy'ch barn chi am y feithrinfa?
John: Gwych. Mae fy ngwraig a fi'n gallu gweithio drwy'r dydd, ac rydyn ni'n gwybod fod y plant yn ddiogel - a'u bod nhw'n mwynhau eu hunain.
Sam: Ac ar ôl y feithrinfa?
John: Wel, fel rydw i wedi dweud, mae ysgolion arbennig o dda yn Abermawr, felly rydyn ni'n lwcus iawn.

*[Siarad â'r camera]*

Sam: Felly . . . meithrinfa ardderchog . . . ysgolion gwych . . . dau reswm arall sy'n gwneud Abermawr yn lle gwych i weithio a byw ynddo.
Ond i orffen, beth am ofyn i rywun o'r Cyngor? Mae Mr William Evans yn gweithio i Adran Datblygu Economaidd y Sir.

Sam: Mr Evans, pam mae Abermawr yn lle da ar gyfer busnesau?

Mr E: Mae popeth yma - parc busnes da, ffyrdd da, digon o dai a digon o bethau i wneud . . . ac rydyn ni yn y cyngor yn gallu rhoi help hefyd. Mae addysg dda iawn yma - ysgolion da, a choleg yn lleol i ddysgu pob math o sgiliau.

Sam: A dyna ni 'te, fel mae Mr Evans yn dweud, mae popeth yma - dewch i weld drosoch eich hun!

*Lluniau o'r dechrau eto, efallai.*

Chwilio am Wybodaeth
Defnyddio Cymraeg yn . . .
Gwneud Cyflwyniad
Gwneud Cyflwyniad
Ateb Cwestiynau
Gwneud Fideo
Gwneud Fideo
Sgiliau Arholiad



# Sgiliau Arholiad

## Iechyd a Diogelwch

*Mae Mr Jones, Swyddog Iechyd a Diogelwch mewn llyfrgell, yn cyfarfod gyda thri aelod o staff - John, Siân a Rhian - i siarad am iechyd a diogelwch yn y llyfrgell.*

Mr Jones: Croeso i'r cyfarfod yma heddiw. Gadewch i ni ddechrau ar unwaith drwy drafod y pwynt cyntaf ar yr Agenda, y dril tân. Fel rydych chi'n gwybod, rydyn ni'n cael y cyfarfod yma heddiw achos ein bod ni wedi cael dril tân ofnadwy ddydd Iau diwethaf.

John: Do? Beth ddigwyddodd? Roeddwn i ar fy ngwyliau.

Siân: Roedd e'n ofnadwy!

Mr Jones: Oedd! Dechreuodd y dril am ddeuddeg o'r gloch. Cerddodd pawb allan yn drefnus - neu roedden ni'n meddwl bod pawb yn cerdded allan yn drefnus. Ond pan oedd pawb yn cerdded allan yn drefnus drwy'r brif fynedfa, roedd grŵp bach o bobl yn cerdded i mewn yn drefnus drwy ddrws cefn yr adeilad - a doedd neb yn eu stopio nhw!

John: Ond fel arfer mae Joe, y porthor, yn sefyll wrth ddrws y cefn, yn stopio pobl rhag dod i mewn.

Mr Jones: Ydy, fel arfer. Ond roedd Joe, hefyd, ar ei wyliau ddydd Iau diwethaf, a doedd Mike, y porthor arall, ddim yn gwybod beth i'w wneud.

John: Wps!

Siân: Hefyd, roedd hen ddynes yn y toiled yn ystod y dril. Roedd hi wedi clywed y gloch ond doedd hi ddim yn gwybod beth oedd yn digwydd.

John: Aeth neb i'r toiledau i weld oedd rhywun yno?

Mr Jones: Naddo.

John: O diar!

Mr Jones: Felly, ers y dril tân, rydw i wedi gofyn i Siân a Rhian edrych i mewn i'n trefniadau ni ar gyfer delio â thân. Mae hyn yn dod â ni at yr ail bwynt ar yr Agenda - canfyddiadau. Rhian, chi i ddechrau. Beth rydych chi wedi ffeindio?

Rhian: Dw i wedi bod yn edrych ar yr arwyddion o gwmpas yr adeilad . . .

Mr Jones: A. . . ?

Rhian: Mae llawer o arwyddion o gwmpas y lle, ond maen nhw'n hen iawn. Mae rhai wedi torri. Hefyd, does dim arwydd wrth y lifft i ddweud wrth bobl am beidio â defnyddio'r lifft os oes tân.

Mr Jones: Reit - rhaid i ni wneud rhywbeth am hynna! Arwyddion newydd, clir ac arwydd mawr wrth y lifft. Siân?

Siân: Dw i wedi bod yn siarad â'r staff. Dydy rhai o'r staff newydd ddim yn siŵr iawn beth maen nhw i fod i wneud os oes tân. Dydyn ni ddim yn siŵr ble maen nhw i fod i sefyll.

Mr Jones: Ond mae hyn yn ofnadwy! Rhaid i ni roi copi o'r polisi Iechyd a Diogelwch iddyn nhw - heddiw!

Siân: Mae ganddyn nhw gopïau o'r polisi ond . . .

Mr Jones: . . . ie . . . ?

Siân: Dydy pawb ddim wedi darllen y polisi.

Mr Jones: Wel, dydy hynny ddim yn ddigon da! Siân, rhaid i chi ddweud wrthyn nhw pa mor bwysig ydy'r polisi yna!

Siân: Iawn, Mr Jones.

Mr Jones: Reit, Pwynt 3 ar yr Agenda ydy symud ymlaen. Rydyn ni wedi dechrau trafod hyn, a dweud y gwir. Hyd yma, rydyn ni wedi gweld bod angen arwyddion newydd - bob man - ac arwydd newydd wrth y lifft. Rhian, wnewch chi drefnu hyn os gwelwch yn dda?

Rhian: Iawn - dim problem.

Mr Jones: Rhaid i Siân ddweud wrth bob aelod o staff am ddarllen y polisi Iechyd a Diogelwch.

Rhian: Mae cyfarfod staff gyda ni bore yfory am hanner awr wedi wyth. Beth am fynd drwy brif bwyntiau'r polisi yn ystod y cyfarfod?

Mr Jones: Siân?

Siân: Ie, syniad da.

Mr Jones: Wyt ti'n fodlon gwneud hynny?

Siân: Ydw.

Mr Jones: Diolch i ti, Siân.

John: Beth am ofyn i Swyddog Tân o'r Frigad Dân ddod i siarad â ni rywbryd? Bydd e'n gallu edrych o gwmpas er mwyn gweld ble mae problemau a bydd e'n gallu siarad â'r staff . . . dweud pa mor bwysig ydy hi bod pawb yn gwybod beth i'w wneud mewn tân ac ati.

Mr Jones: Ie, syniad da. Wyt ti'n hapus i drefnu hyn?

John: Ydw. Dim problem.

Mr Jones: Da iawn. Rhaid i ni'n pedwar gyfarfod eto er mwyn symud y busnes Iechyd a Diogelwch yma ymlaen. Felly, y pwynt olaf ar yr Agenda - dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf. Beth am wythnos i heddiw - Dydd Mawrth, Ebrill 23 . . . yma, yn fy ystafell i . . . 10 o'r gloch?

Pawb: Iawn / Mae'n gyfleus.